COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A GYNHALIWYD YN O BELL TRWY MICROSOFT TEAMS DYDD IAU, 20 HYDREF 2022, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd T Thomas – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| P Ford | RM Granville | D T Harrison | M L Hughes |
| RM James | R J Smith | G Walter | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

S Aspey, I M Spiller a/ac E D Winstanley

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Nimi Chandrasena | Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd |

6. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

7. CYMERADWYAETH COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 07/07/2022 fel cofnod gwir a chywir.

8. RHAGLENNI SEFYDLU A DATBLYGU AELODAU

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd (DSM) yr adroddiad i'r pwyllgor.
Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi gofyn am adborth gan ei grŵp ynglŷn â'r cyfnod sefydlu, a rhannodd fod yr Aelodau wedi dweud wrtho eu bod wedi gweld profiad y farchnad yn ddefnyddiol iddynt.
Codwyd mater presenoldeb cyfnewidiol aelodau yn y sesiynau datblygu ac awgrymodd y cadeirydd y dylid ailedrych ar yr amserau y cynhelir hyfforddiant arnynt a chynigiodd gynnal arolwg. Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd fod arolwg ar Ddatblygiad Aelodau wedi cael ei amserlennu eisoes.
Rhoddodd aelod o'r pwyllgor adborth am ddigwyddiad y Farchnad a gwnaeth awgrymiadau ar gyfer gwella digwyddiadau a hyfforddiant o'r fath yn y dyfodol.
Cafwyd trafodaeth rhwng Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd ac aelodau eraill ynghylch y modd y cynhelir hyfforddiant, gydag awgrymiadau ar gyfer gwella.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd, gyda golwg ar y sylwadau a wnaed gan Aelodau ynghylch y rhaglen waith i'r dyfodol, y bu sôn y câi Aelodau adroddiad ar Borth y Cynghorwyr. Roeddent yn ceisio cael y data ond nid oedd ar gael ar hyn o bryd. Roedd tîm y porth drwy'r tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid a TGCh yn cael trafferth i ddarparu'r data.

Sicrhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd yr Aelodau eu bod yn dilyn y mater a bod Pennaeth y Gwasanaethau Partneriaeth wedi ei sicrhau y byddent yn ceisio gwneud yn siŵr bod yr adroddiad ar gael mewn pryd ar gyfer y cyfarfod nesaf ym mis Chwefror 2023.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd y cafwyd cynnig yn un o'r cyfarfodydd, yr oedd rhai Aelodau efallai wedi ei fynychu, i gael gweithgor o aelodau i edrych ar y porth a rhoi prawf ar y gwahanol gamau, gan ei fod yn dal i gael ei ddatblygu a bod angen monitro. Soniodd ei bod wedi awgrymu i Bennaeth y Gwasanaethau Partneriaeth a'r Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y gallai'r gweithgor gael ei gynrychioli gan aelodau Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd. Yna cafwyd trafodaeth rhwng yr aelodau ynglŷn â'r ffordd orau i symud y cynnig hwn yn ei flaen.

PENDERFYNWYD : Bod y pwyllgor yn nodi'r adroddiad a'r atodiadau.

Cytunodd y pwyllgor i nodi pynciau ychwanegol ar gyfer Datblygu Aelodau i'w cynnwys a'u blaenoriaethu yn y cynllun datblygu cyffredinol.

Gofynnodd y Pwyllgor y canlynol:

- Bod arolwg yr Aelodau yn gofyn am farn ynghylch amseriad y sesiynau Datblygu Aelodau hyn yn ogystal â phriodoldeb yr hyfforddiant hyd yma, hygyrchedd ac unrhyw fylchau posibl;
- Byddai cael digwyddiad y Farchnad yn gynt yn ddefnyddiol yn dilyn etholiadau yn y dyfodol;
- Ystyried technegau a dulliau amrywiol o hyfforddi i annog yr Aelodau i gymryd rhan;
- Ystyried Cadeiryddion ar gyfer yr holl hyfforddiant i sicrhau strwythur i'r sesiwn a chadw'r Aelodau ar y trywydd iawn;
- Bod Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd yn edrych i weld a oes modd monitro pan fydd cofnodion sesiynau hyfforddi wedi cael eu gwylio ar gyfer y rheiny nad ydynt efallai'n gallu mynychu'r sesiwn ei hun.

9. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2023/24

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad a chrynhoi'r pwyntiau i'r pwyllgor.
Bu'r Cadeirydd ac aelodau eraill yn trafod eu pryderon ynghylch cynnwys yr adroddiad, yn enwedig gyda golwg ar y cynnydd arfaethedig mewn cyflog i Aelodau a'r argraff y gallai hyn ei gadael ar eu hetholwyr yng ngoleuni'r argyfwng costau byw.

PENDERFYNWYD : Bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad a'r atodiadau.
Cytunodd y Pwyllgor i ddarparu'r ymateb a ganlyn, mewn perthynas ag Adroddiad Blynyddol Drafft IRPW 2023-2024, i'r IRPW a CLILC i'w gyflwyno erbyn y 1af o Ragfyr 2022:

'Mae'r Pwyllgor yn cydnabod, o ystyried yr argyfwng costau byw a'r anawsterau di-ddadl y mae llawer o bobl yn y Fwrdeistref Sirol yn eu profi ar hyn o bryd ac yn debygol o'u profi yn y dyfodol agos, ei bod yn ymddangos braidd yn amhriodol i Aelodau Etholedig gael codiadau cyflog ar gyfer 2023-2024. Fodd bynnag, derbynnir hefyd fod angen ystyried amgylchiadau personol Aelodau ac felly y dylai fod yn fater personol i'r Aelodau benderfynu drostynt eu hunain a fyddant yn derbyn y codiad cyflog ynteu'n dewis peidio.'

10. MATERION BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 10:50